
# Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion yng Nghymru, 2014/15

28 Medi 2016
SFR 126/2016

Dyma'r flwyddyn gyntaf i ddata gwaharddiadau lefel disgyblion gael ei gasglu o unedau cyfeirio disgyblion (UCD). Mae'r wybodaeth yma yn ymwneud â'r blynyddoedd academaidd 2011/12 i 2014/15.

Mae'r dull a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo cyfraddau gwaharddiadau wedi newid ers y fersiwn 2013/14 o'r Datganiad hwn. Am y rheswm hwn efallai y bydd rhai cyfraddau gwaharddiadau ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol. Gweler yr adran safon am ragor o wybodaeth.

**Siart 1: Cyfraddau gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir ac UCD yng Nghymru**




Nid yw'r gyfradd o waharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir UCD wed i newid ers 2011/12. Mae wedi aros yn sefydlog ar **0.2 gwaharddiad** fesul 1,000 o ddisgyblion am bedair blwyddyn.

Gostyngodd y **cyfraddau o waharddiadau penodol** rhwng 2011/12 a 2103/14, ond bu cynnydd yn 2014/15.

Yn 2014/15 bu 29.9 gwaharddiad penodol o 5 diwrnod neu lai a 1.7 gwaharddiad penodol o fwy na 5 diwrnod fesul 1,000 o ddisgyblion.

- **'Ymddygiad** aflonyddgar **parhaus'** oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros gwaharddiadau **parhaol** a **phenodol 5 diwrnod neu llai** yn 2014/15.
- Y rheswm mwyaf cyffredin dros **waharddiad parhaol mwy na 5 diwrnod** yn 2014/15 oedd '**c**am-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn'

## Am y datganiad hwn

Mae'r Datganiad Cyntaf Ystadegol blynyddol yma yn adrodd ar waharddiadau parhaol a chyfnod penodol gan yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd, canol, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru. Mae hefyd yn adrodd ar y rhesymau a roddir ar gyfer gwaharddiadau.

Mae data yn cael eu dangos ar gyfer Cymru ac ar lefel awdurdod lleol/consortiwm lleol.

Nid yw Gwaharddiadau gan hawl i brydau ysgol am ddim, angen addysgol arbennig a chefndir ethnig yn cael eu cynnwys yn y ddogfen hon, ond yn cael eu cynnwys yn y daenlen sy'n cyd-fynd.

## Yn y datganiad hwn

**Gwaharddiadau yn ol:**

Math o ysgol 3
Awdurdod lleol 4
Rhewsm 7

Ystadegydd: Stephen Hughes ~ 0300 025 4070 ~ ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @ystadegaucymru

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Siart 1 | Cyfradd gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir ac UCD yng Nghymru | 1 |
| Tabl 1 | Gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, fesul math o ysgol | 3 |
| **Gwaharddiadau fesul awdurdod lleol** | | |
| Tabl 2a | Gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir yng Nghymru, fesul awdurdod lleol a chonsortiwm | 4 |
| Tabl 2b | Gwaharddiadau cyfnod penodol (5 diwrnod neu lai) o ysgolion a gynhelir yng Nghymru, fesul awdurdod lleol a chonsortiwm | 5 |
| Tabl 2c | Gwaharddiadau cyfnod penodol (mwy na 5 diwrnod) o ysgolion a gynhelir yng Nghymru, fesul awdurdod lleol a chonsortiwm | 6 |
| **Rhesymau dros y gwaharddiadau** | | |
| Tabl 3 | Gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir fesul rheswm dros y gwaharddiad | 7 |
| Siart 2 | Canran o'r holl waharddiadau, fesul rheswm dros y gwaharddiad | 8 |
| **Gwybodaeth ychwanegol** | | |
| | Nodiadau | 9 |


# Cyflwyniad

Mae Siart 1 yn dangos sut mae cyfradd gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion a gynhelir ac UCD yng Nghymru wedi newid dros amser.

Mae Tabl 1 yn dangos y dadansoddiad o waharddiadau parhaol a chyfnod penodol fesul math o ysgol

Mae Tablau 2a, 2b a 2c yn dangos niferoedd a chyfraddau gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol fesul awdurdod lleol a chonsortiwm. Mae’r tablau hyn yn cynnwys gwaharddiadau o’r holl ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir.

Mae Tabl 3 a Siart 2 yn nodi’r rhesymau a roddwyd dros y gwaharddiadau.

## Tabl 1: Gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir ac UCD yng Nghymru, fesul math o ysgol

| | Nifer o waharddiadau | | | | Cyfradd gwaharddiadau (a) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
| **Parhaol** | | | | | | | | |
| Ysgolion gynradd | 6 | 9 | 7 | 8 | - | - | - | - |
| Ysgolion gynradd (b) | * | * | * | 0 | . | * | * | 0.0 |
| Ysgolion Uwchradd | 84 | 89 | 80 | 81 | 0.4 | 0.5 | 0.4 | 0.4 |
| Ysgolion arbennig | * | * | * | 0 | * | * | * | 0.0 |
| **Cyfanswm - ysgolion a gynhelir** | **91** | **102** | **89** | **89** | **0.2** | **0.2** | **0.2** | **0.2** |
| Unedau cyfeirio disgyblion (UCD) (c) | .. | .. | .. | 0 | .. | .. | .. | . |
| **Cyfanswm - ysgolion a gynhelir ac UCD** | **91** | **102** | **89** | **89** | **0.2** | **0.2** | **0.2** | **0.2** |
| **Gwaharddiadau cyfnod penodol (5 diwrnod neu lai)** | | | | | | | | |
| Ysgolion gynradd | 998 | 1,593 | 1,992 | 2,188 | 3.8 | 6.0 | 7.4 | 8.0 |
| Ysgolion gynradd (b) | 35 | 98 | 164 | 238 | . | 26.9 | 46.3 | 54.4 |
| Ysgolion Uwchradd | 12,459 | 10,824 | 9,789 | 10,096 | 62.9 | 56.6 | 52.5 | 55.3 |
| Ysgolion arbennig | 385 | 402 | 430 | 492 | 90.5 | 93.0 | 99.1 | 110.7 |
| **Cyfanswm - ysgolion a gynhelir** | **13,877** | **12,917** | **12,375** | **13,014** | **29.9** | **27.9** | **26.7** | **28.0** |
| Unedau cyfeirio disgyblion (UCD) (c) | .. | .. | .. | 900 | .. | .. | .. | . |
| **Cyfanswm - ysgolion a gynhelir ac UCD** | **13,877** | **12,917** | **12,375** | **13,914** | **29.9** | **27.9** | **26.7** | **29.9** |
| **Gwaharddiadau cyfnod penodol (mwy na 5 diwrnod)** | | | | | | | | |
| Ysgolion gynradd | 57 | 139 | 129 | 138 | 0.2 | 0.5 | 0.5 | 0.5 |
| Ysgolion gynradd (b) | 0 | 0 | * | * | . | 0.0 | * | * |
| Ysgolion Uwchradd | 967 | 782 | 579 | 612 | 4.9 | 4.1 | 3.1 | 3.4 |
| Ysgolion arbennig | 21 | 41 | * | * | 4.9 | 9.5 | * | * |
| **Cyfanswm - ysgolion a gynhelir** | **1,045** | **962** | **738** | **780** | **2.3** | **2.1** | **1.6** | **1.7** |
| Unedau cyfeirio disgyblion (UCD) (c) | .. | .. | .. | 25 | .. | .. | .. | . |
| **Cyfanswm - ysgolion a gynhelir ac UCD** | **1,045** | **962** | **738** | **805** | **2.3** | **2.1** | **1.6** | **1.7** |

Ffynhonnell: Cofnod Gwaharddiadau Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Cyfradd am bob 1,000 o ddisgyblion. Disgyblion amser llawn a rhan amser o bob oed.
(b) Yn 2012/13, darparodd ysgolion canol ddata gwaharddiadau ar gyfer yr ysgolion cynradd neu uwchradd a unodd i'w ffurfio yn 2011/12. Dyna pam, er nad oedd unrhyw ysgolion canol yn 2011/12, mae data gwaharddiadau wedi'u cofnodi yn erbyn ysgolion canol am y
(b) flwyddyn hon.
(c) Ni ddarparir y cyfradd o waharddiadau ar gyfer UCD oherwydd disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol.
".." yn golygu nid yw'r data ar gael
"." yn golygu nid yw'r data yn berthnasol

- Nid yw'r gyfradd gwaharddiadau parhaol fesul 1,000 o ddisgyblion wedi newid mewn tair blynedd. Ym mlwyddyn academaidd 2013/14, fel yn y ddwy flynedd gynt, cafwyd 0.2 gwaharddiad parhaol fesul 1,000 o ddisgyblion.
- Yn 2014/15 bu 29.9 gwaharddiad penodol o 5 diwrnod neu lai a 1.7 gwaharddiad penodol o fwy na 5 diwrnod fesul 1,000 o ddisgyblion.
- Dyma'r flwyddyn gyntaf i ddata gwaharddiadau lefel disgyblion gael ei gasglu o UCD. Oherwydd hyn, dylech gymryd ofal wrth gymharu'r gyfradd eleni gyda blynyddoedd cynt. Mae'r gyfradd ar gyfer ysgolion a gynhelir yn unig wedi'i gynnwys yn y tabl uchod er mwyn rhoi mesur mwy cymharol dros amser.
- Mae gwaharddiadau cyfnod penodol wedi bod yn gostwng rhwng 2011/12 a 2013/14. Yn 2015 bu cynnydd yn y cyfraddau.
- Ysgolion arbennig oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai.

## Tabl 2a: Gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir yng Nghymru, fesul awdurdod lleol a chonsortiwm

| | Nifer o waharddiadau | | | | Cyfradd gwaharddiadau (a) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
| **Gogledd Cymru** | **20** | **7** | **12** | **13** | **0.2** | **0.1** | **0.1** | **0.1** |
| Ynys Môn | * | 0 | 0 | 0 | * | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Gwynedd | 13 | * | * | 6 | 0.8 | * | * | 0.4 |
| Conwy | 0 | 0 | * | 0 | 0.0 | 0.0 | * | 0.0 |
| Sir Ddinbych | * | * | 0 | * | * | * | 0.0 | * |
| Sir y Fflint | * | 0 | * | 0 | * | 0.0 | * | 0.0 |
| Wrecsam | * | 0 | * | * | * | 0.0 | * | * |
| **De-orllewin a Chanolbarth Cymru** | **27** | **25** | **18** | **28** | **0.2** | **0.2** | **0.1** | **0.2** |
| Powys | 7 | 6 | 0 | 9 | 0.4 | 0.3 | 0.0 | 0.5 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Sir Penfro | * | * | * | * | * | * | * | * |
| Sir Gâr | * | * | * | * | * | * | * | * |
| Abertawe | 6 | 5 | 6 | 8 | 0.2 | 0.1 | 0.2 | 0.2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 12 | 11 | 11 | 9 | 0.6 | 0.5 | 0.5 | 0.4 |
| **Canol De Cymru** | **21** | **35** | **31** | **27** | **0.1** | **0.2** | **0.2** | **0.2** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 6 | 11 | 9 | * | 0.3 | 0.5 | 0.4 | * |
| Bro Morgannwg | * | * | * | * | * | * | * | * |
| Rhondda Cynon Taf | * | 13 | 16 | 17 | * | 0.3 | 0.4 | 0.4 |
| Merthyr Tudful | * | * | * | * | * | * | * | * |
| Caerdydd | 7 | 5 | 5 | * | 0.1 | 0.1 | 0.1 | * |
| **De-ddwyrain Cymru** | **23** | **35** | **28** | **21** | **0.3** | **0.4** | **0.3** | **0.2** |
| Caerffili | 6 | 8 | 12 | 9 | 0.2 | 0.3 | 0.4 | 0.3 |
| Blaenau Gwent | * | * | * | * | * | * | * | * |
| Torfaen | * | 7 | * | * | * | 0.5 | * | * |
| Sir Fynwy | 0 | * | 0 | 0 | 0.0 | * | 0.0 | 0.0 |
| Casnewydd | 9 | 17 | 10 | 8 | 0.4 | 0.7 | 0.4 | 0.3 |
| **Cymru** | **91** | **102** | **89** | **89** | **0.2** | **0.2** | **0.2** | **0.2** |

Ffynhonnell: Cofnod Gwaharddiadau Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Cyfradd am bob 1,000 o ddisgyblion. Disgyblion amser llawn a rhan amser o bob oed.

- Mae’r gyfradd o waharddiadau parhaol yn eithaf cyson dros y consortiwm.
- dylech gymryd ofal wrth gymharu'r gyfradd rhwng yr awdurdodau. Gall wahaniaethau mewn arferion rheoli ymddygiad effeithio y nifer a chyfradd o waharddiadau.

## Tabl 2b: Gwaharddiadau cyfnod penodol (5 diwrnod neu lai) o ysgolion a gynhelir yng Nghymru, fesul awdurdod lleol a chonsortiwm

| | Nifer o waharddiadau | | | | Cyfradd gwaharddiadau (a) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
| **Gogledd Cymru** | **3,027** | **2,272** | **2,208** | **2,550** | **29.8** | **22.4** | **21.8** | **25.1** |
| Ynys Môn | 225 | 113 | 87 | 163 | 23.5 | 11.8 | 9.1 | 17.0 |
| Gwynedd | 234 | 95 | 111 | 157 | 13.6 | 5.5 | 6.5 | 9.2 |
| Conwy | 176 | 244 | 150 | 298 | 10.9 | 15.2 | 9.4 | 18.7 |
| Sir Ddinbych | 574 | 490 | 563 | 734 | 36.5 | 31.3 | 35.9 | 46.6 |
| Sir y Fflint | 684 | 696 | 704 | 712 | 28.8 | 29.4 | 29.7 | 30.0 |
| Wrecsam | 1,134 | 634 | 593 | 486 | 59.4 | 33.1 | 30.7 | 24.9 |
| **De-orllewin a Chanolbarth Cymru** | **2,422** | **2,590** | **2,867** | **2,946** | **18.6** | **20.0** | **22.2** | **22.8** |
| Powys | 355 | 324 | 299 | 479 | 18.7 | 17.1 | 16.0 | 26.2 |
| Ceredigion | 120 | 115 | 61 | 85 | 12.4 | 12.0 | 6.3 | 8.9 |
| Sir Penfro | 113 | 452 | 621 | 747 | 6.2 | 24.9 | 34.1 | 41.6 |
| Sir Gâr | 413 | 365 | 456 | 454 | 15.3 | 13.5 | 16.9 | 16.8 |
| Abertawe | 803 | 684 | 770 | 546 | 22.9 | 19.5 | 21.8 | 15.4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 618 | 650 | 660 | 635 | 29.8 | 31.7 | 32.1 | 30.7 |
| **Canol De Cymru** | **5,501** | **4,974** | **4,258** | **4,417** | **38.5** | **34.7** | **29.6** | **30.5** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 646 | 595 | 425 | 549 | 29.0 | 26.5 | 18.8 | 24.0 |
| Bro Morgannwg | 236 | 577 | 572 | 472 | 10.9 | 26.6 | 26.4 | 21.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 1,569 | 1,491 | 1,307 | 1,553 | 40.2 | 38.2 | 33.6 | 40.1 |
| Merthyr Tudful | 149 | 195 | 178 | 197 | 16.3 | 21.5 | 20.3 | 22.9 |
| Caerdydd | 2,901 | 2,116 | 1,776 | 1,646 | 57.3 | 41.5 | 34.2 | 31.3 |
| **De-ddwyrain Cymru** | **2,927** | **3,081** | **3,042** | **3,101** | **32.4** | **34.4** | **34.1** | **34.7** |
| Caerffili | 877 | 702 | 617 | 823 | 30.4 | 24.5 | 21.5 | 28.7 |
| Blaenau Gwent | 190 | 263 | 412 | 448 | 18.7 | 26.9 | 43.1 | 47.6 |
| Torfaen | 744 | 678 | 455 | 345 | 47.5 | 44.1 | 30.0 | 22.9 |
| Sir Fynwy | 372 | 323 | 341 | 405 | 31.7 | 27.6 | 29.5 | 35.1 |
| Casnewydd | 744 | 1,115 | 1,217 | 1,080 | 31.2 | 46.1 | 50.0 | 43.7 |
| **Cymru** | **13,877** | **12,917** | **12,375** | **13,014** | **29.9** | **27.9** | **26.7** | **28.0** |

Ffynhonnell: Cofnod Gwaharddiadau Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Cyfradd am bob 1,000 o ddisgyblion. Disgyblion amser llawn a rhan amser o bob oed.

- Blaenau Gwent oedd â’r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai o ysgolion a gynhelir yn 2014/15.
- Ceredigion oedd â’r gyfradd isaf o waharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai yn 2014/15.
- dylech gymryd ofal wrth gymharu'r gyfradd rhwng yr awdurdodau. Gall wahaniaethau mewn arferion rheoli ymddygiad effeithio'r nifer a chyfradd o waharddiadau.

**Tabl 2c: Gwaharddiadau cyfnod penodol (mwy na 5 diwrnod) o ysgolion a gynhelir yng Nghymru, fesul awdurdod lleol a chonsortiwm**

| | Nifer o waharddiadau | | | | Cyfradd gwaharddiadau (a) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
| **Gogledd Cymru** | **247** | **208** | **145** | **153** | **2.4** | **2.1** | **1.4** | **1.5** |
| Ynys Môn | 29 | 13 | * | 8 | 3.0 | 1.4 | * | 0.8 |
| Gwynedd | 17 | 11 | * | 16 | 1.0 | 0.6 | * | 0.9 |
| Conwy | 10 | 20 | 18 | 13 | 0.6 | 1.2 | 1.1 | 0.8 |
| Sir Ddinbych | 19 | 17 | 17 | 26 | 1.2 | 1.1 | 1.1 | 1.6 |
| Sir y Fflint | 51 | 68 | 42 | 40 | 2.1 | 2.9 | 1.8 | 1.7 |
| Wrecsam | 121 | 79 | 50 | 50 | 6.3 | 4.1 | 2.6 | 2.6 |
| **De-orllewin a Chanolbarth Cymru** | **215** | **194** | **168** | **193** | **1.7** | **1.5** | **1.3** | **1.5** |
| Powys | 34 | 29 | 31 | 42 | 1.8 | 1.5 | 1.7 | 2.3 |
| Ceredigion | * | * | 0 | 0 | * | * | 0.0 | 0.0 |
| Sir Penfro | * | * | 20 | 16 | * | * | 1.1 | 0.9 |
| Sir Gâr | 22 | 16 | 10 | 25 | 0.8 | 0.6 | 0.4 | 0.9 |
| Abertawe | 92 | 90 | 57 | 74 | 2.6 | 2.6 | 1.6 | 2.1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 61 | 46 | 50 | 36 | 2.9 | 2.2 | 2.4 | 1.7 |
| **Canol De Cymru** | **368** | **352** | **248** | **274** | **2.6** | **2.5** | **1.7** | **1.9** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 49 | 46 | 32 | 40 | 2.2 | 2.0 | 1.4 | 1.8 |
| Bro Morgannwg | 27 | 77 | 63 | 19 | 1.2 | 3.5 | 2.9 | 0.9 |
| Rhondda Cynon Taf | 102 | 73 | 85 | 102 | 2.6 | 1.9 | 2.2 | 2.6 |
| Merthyr Tudful | 20 | 18 | 9 | 16 | 2.2 | 2.0 | 1.0 | 1.9 |
| Caerdydd | 170 | 138 | 59 | 97 | 3.4 | 2.7 | 1.1 | 1.8 |
| **De-ddwyrain Cymru** | **215** | **208** | **177** | **160** | **2.4** | **2.3** | **2.0** | **1.8** |
| Caerffili | 41 | 57 | 55 | 65 | 1.4 | 2.0 | 1.9 | 2.3 |
| Blaenau Gwent | 29 | 21 | 39 | 17 | 2.9 | 2.1 | 4.1 | 1.8 |
| Torfaen | 57 | 35 | * | * | 3.6 | 2.3 | * | * |
| Sir Fynwy | 16 | 7 | * | * | 1.4 | 0.6 | * | * |
| Casnewydd | 72 | 88 | 72 | 59 | 3.0 | 3.6 | 3.0 | 2.4 |
| **Cymru** | **1,045** | **962** | **738** | **780** | **2.3** | **2.1** | **1.6** | **1.7** |

Ffynhonnell: Cofnod Gwaharddiadau Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Cyfradd am bob 1,000 o ddisgyblion. Disgyblion amser llawn a rhan amser o bob oed.

- Roedd y gyfradd o waharddiadau dros 5 diwrnod ychydig yn uwch yng Nghanol De Cymru a De-ddwyrain Cymru.
- dylech gymryd ofal wrth gymharu'r gyfradd rhwng yr awdurdodau. Gall wahaniaethau mewn arferion rheoli ymddygiad effeithio'r nifer a chyfradd o waharddiadau.


## Tabl 3: Gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir yng Nghymru, fesul rheswm dros y gwaharddiadau (r)

| | Nifer o w aharddiadau | | | | Canran gw aharddiadau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
| **Parhaol** | | | | | | | | |
| Ymosodiad corfforol ar ddisgybl | 13 | 17 | 11 | 14 | 14.3 | 16.7 | 12.4 | 15.7 |
| Ymosodiad corfforol ar oedolyn | 18 | 17 | 13 | 12 | 19.8 | 16.7 | 14.6 | 13.5 |
| Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn disgybl | * | 5 | 5 | * | * | 4.9 | 5.6 | * |
| Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn | * | 7 | 14 | 14 | * | 6.9 | 15.7 | 15.7 |
| Bw lio | 0 | 0 | 0 | * | 0.0 | 0.0 | 0.0 | * |
| Cam-drin hiliol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Camymddygiad rhyw iol | 0 | * | 0 | 0 | 0.0 | * | 0.0 | 0.0 |
| Cyffuriau ac alcohol | 9 | 11 | 18 | 9 | 9.9 | 10.8 | 20.2 | 10.1 |
| Difrod | * | 6 | 0 | * | * | 5.9 | 0.0 | * |
| Dw yn | * | * | 0 | * | * | * | 0.0 | * |
| Ymddygiad aflonyddgar parhaus | 11 | 12 | 12 | 17 | 12.1 | 11.8 | 13.5 | 19.1 |
| Meddu ar/defnyddio arf | * | .. | .. | .. | * | .. | .. | .. |
| Herio rheolau/polisi disgyblu | 16 | .. | .. | .. | 17.6 | .. | .. | .. |
| Ymddygiad bygythiol neu beryglus | 7 | .. | .. | .. | 7.7 | .. | .. | .. |
| Arall | 7 | 23 | 16 | 14 | 7.7 | 22.5 | 18.0 | 15.7 |
| Cyfansw m | 91 | 102 | 89 | 89 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| **Gw aharddiadau cyfnod penodol (5 diw rnod neu lai)** | | | | | | | | |
| Ymosodiad corfforol ar ddisgybl | 2,463 | 2,393 | 2,189 | 2,264 | 17.7 | 18.5 | 17.7 | 17.4 |
| Ymosodiad corfforol ar oedolyn | 579 | 702 | 920 | 979 | 4.2 | 5.4 | 7.4 | 7.5 |
| Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn disgybl | 110 | 570 | 489 | 498 | 0.8 | 4.4 | 4.0 | 3.8 |
| Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn | 2,569 | 2,593 | 2,610 | 2,776 | 18.5 | 20.1 | 21.1 | 21.3 |
| Bw lio | 132 | 136 | 115 | 86 | 1.0 | 1.1 | 0.9 | 0.7 |
| Cam-drin hiliol | 101 | 95 | 112 | 111 | 0.7 | 0.7 | 0.9 | 0.9 |
| Camymddygiad rhyw iol | 73 | 54 | 81 | 54 | 0.5 | 0.4 | 0.7 | 0.4 |
| Cyffuriau ac alcohol | 234 | 293 | 291 | 307 | 1.7 | 2.3 | 2.4 | 2.4 |
| Difrod | 408 | 359 | 289 | 329 | 2.9 | 2.8 | 2.3 | 2.5 |
| Dw yn | 184 | 119 | 141 | 101 | 1.3 | 0.9 | 1.1 | 0.8 |
| Ymddygiad aflonyddgar parhaus | 2,081 | 3,028 | 2,465 | 2,888 | 15.0 | 23.4 | 19.9 | 22.2 |
| Meddu ar/defnyddio arf | 48 | .. | .. | .. | 0.3 | .. | .. | .. |
| Herio rheolau/polisi disgyblu | 2,660 | .. | .. | .. | 19.2 | .. | .. | .. |
| Ymddygiad bygythiol neu beryglus | 832 | .. | .. | .. | 6.0 | .. | .. | .. |
| Arall | 1,403 | 2,575 | 2,673 | 2,621 | 10.1 | 19.9 | 21.6 | 20.1 |
| Cyfansw m | 13,877 | 12,917 | 12,375 | 13,014 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| **Gw aharddiadau cyfnod penodol (mw y na 5 diw rnod)** | | | | | | | | |
| Ymosodiad corfforol ar ddisgybl | 188 | 142 | 100 | 105 | 18.0 | 14.8 | 13.6 | 13.5 |
| Ymosodiad corfforol ar oedolyn | 113 | 124 | 97 | 108 | 10.8 | 12.9 | 13.1 | 13.8 |
| Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn disgybl | * | 43 | 32 | 30 | * | 4.5 | 4.3 | 3.8 |
| Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn | 90 | 130 | 117 | 148 | 8.6 | 13.5 | 15.9 | 19.0 |
| Bw lio | 11 | 17 | 5 | 8 | 1.1 | 1.8 | 0.7 | 1.0 |
| Cam-drin hiliol | * | * | 8 | * | * | * | 1.1 | * |
| Camymddygiad rhyw iol | 8 | * | 8 | * | 0.8 | * | 1.1 | * |
| Cyffuriau ac alcohol | 58 | 82 | 61 | 64 | 5.6 | 8.5 | 8.3 | 8.2 |
| Difrod | 37 | 39 | 23 | 24 | 3.5 | 4.1 | 3.1 | 3.1 |
| Dw yn | 16 | 21 | 29 | 10 | 1.5 | 2.2 | 3.9 | 1.3 |
| Ymddygiad aflonyddgar parhaus | 102 | 193 | 132 | 147 | 9.8 | 20.1 | 17.9 | 18.8 |
| Meddu ar/defnyddio arf | 13 | .. | .. | .. | 1.2 | .. | .. | .. |
| Herio rheolau/polisi disgyblu | 148 | .. | .. | .. | 14.2 | .. | .. | .. |
| Ymddygiad bygythiol neu beryglus | 140 | .. | .. | .. | 13.4 | .. | .. | .. |
| Arall | 110 | 152 | 126 | 126 | 10.5 | 15.8 | 17.1 | 16.2 |
| Cyfansw m | 1,045 | 962 | 738 | 780 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |

Ffynhonnell: Cofnod Gw aharddiadau Disgyblion, Llyw odraeth Cymru

(r) Sylwer bod y ffigurau a ddangosir yn y tabl hwn ond yn cynnwys y disgyblion eu haddysgu mewn ysgolion a gynhelir. Roedd teitl y tabl a gyhoeddwyd ar 28 Medi 2016 yn dangos mewn camgymeriad fod disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion wedi'u cynnwys.

### Siart 2: Canran yr holl waharddadau, yn ôl rheswm




Mae'r siart yma yn cynnwys disgyblion mewn ysgolion a gynhelir ac UCD.

- Roedd 19.1 y cant o waharddiadau cyfnod penodol o fwy na 5 diwrnod yn 2014/15 oherwydd 'ymddygiad aflonyddgar parhaus'
- Roedd 22.2 y cant o waharddiadau penodol o 5 diwrnod neu lai yn 2014/15 hefyd achos 'ymddygiad aflonyddgar parhaus'
- Roedd 19.0 y cant o waharddiadau cyfnod penodol o fwy na 5 diwrnod yn 2014/15 oherwydd cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn'.
- Y rhain oedd y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd ar gyfer pob math o waharddiad.
- Mae'r siart uchod yn dangos canran y gwaharddiadau yn 2014/15 a gofnodwyd yn erbyn pob rheswm dros waharddiad. Mae'r siart yn cynnwys yr holl waharddiadau parhaol a chyfnod penodol. Er bod yr holl resymau dros waharddiadau wedi'u cynnwys yn y siart, dim ond y chwe rheswm mwyaf cyffredin a ddangosir.
- Y rheswm mwyaf cyffredin ond un dros waharddiadau oedd 'ymddygiad aflonyddgar parhaus'. Yr ail reswm mwyaf cyffredin oedd 'Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn'.

# Y Cyd-destun

## Polisi/Gweithredol

Cyhoeddwyd canllawiau wedi'u diweddaru ar Wahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (Cylchlythyr Rhif: 081/2012) ym mis Medi 2012. Mae'n darparu canllawiau ar waharddiadau a gweithdrefnau apelio. Mae'r gweithdrefnau a nodir yn y canllawiau hyn yn berthnasol i'r holl ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gynhelir a'r holl ddisgyblion ynddynt. Lle ysgolion unigol yw pennu eu polisïau ymddygiad a chydweithio â'u hawdurdod lleol ar waharddiadau. Bydd arferion amrywiol sydd ar waith o dan y canllawiau'n effeithio ar y cyfraddau amrywiol ar draws Cymru.

## Ffynhonnell y data

Ers mis Ionawr 2013 mae data gwaharddiadau wedi cael eu casglu yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) mis Ionawr. Ni fu modd cyhoeddi'r data newydd hyn ar unwaith oherwydd bu'n rhaid gwerthuso eu hansawdd. Erbyn hyn mae ansawdd y data wedi cael ei gadarnhau ac mae'r data gwaharddiadau lefel disgyblion a gafwyd o CYBLD mis Ionawr yn cael eu defnyddio fel sail i'r datganiad ystadegol cyntaf hwn. Mae'r niferoedd disgyblion a ddefnyddir i gyfrifo cyfraddau gwaharddiadau hefyd wedi'u cymryd o CYBLD mis Ionawr. Caiff y gwaith casglu data ei gyflawni gan y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru.

# Gwybodaeth allweddol o ansawdd

## Perthnasedd

Mae'r ystadegau'n cael eu defnyddio y tu mewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data sylfaenol ymhellach. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Yr Adran Addysg yn Lloegr;
- adrannau llywodraethol eraill;
- Awdurdodau Lleol;
- Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- Swyddfa Archwilio Cymru;
- Yr Adran Addysg a Sgiliau yn Llywodraeth Cymru;
- rhannau eraill o Lywodraeth Cymru;
- y gymuned ymchwil;
- myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;
- dinasyddion unigol a chwmnïau preifat.

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- cyngor i Weinidogion;
- cymariaethau a meincnodau awdurdodau lleol;
- i lywio'r broses benderfynu ym maes polisi addysg yng Nghymru;
- i ddarparu gwybodaeth i Estyn yn ystod arolygiadau o ysgolion;
- yn cyfrannu at y Dangosyddion Strategol Craidd;
- meincnodi rhyngwladol;
- maes addysg ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru;
- i gynorthwyo â gwaith ymchwil i gyrhaeddiad addysgol.

## Cywirdeb

Mae gwahanol gamau dilysu a gwirio synnwyr awtomatig yn rhan annatod o'r broses casglu data er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd da.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Caiff y data eu casglu yn y mis Ionawr ar ôl y flwyddyn academaidd y digwyddodd y gwaharddiadau ynddi. Ar ôl casglu'r data a sicrhau eu hansawdd, cânt eu cyhoeddi ar y dyddiad cynharaf posibl. Oherwydd bod gwaith casglu'r data wedi symud o arolwg gan awdurdodau lleol a arferai cael ei gynnal ym mis Tachwedd i CYBLD mis Ionawr, mae'r dyddiad cyhoeddi'n hwyrach na dyddiad y datganiad ystadegol blaenorol ar waharddiadau.

## Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw ac yna ei gyhoeddi ar yr adran Ystadegau o wefan Llywodraeth Cymru.

## Cymaroldeb a chydlyniaeth

Er mwyn gwella ansawdd y data gwaharddiadau a'u gwneud yn fwy defnyddiol, penderfynwyd casglu data gwaharddiadau mewn ffordd newydd trwy Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) mis Ionawr. Er y disgwylir y bydd y data newydd hyn yn fwy defnyddiol i ddefnyddwyr, ni chynghorir eu cymharu â'r data a gasglwyd gan ddefnyddio'r hen ddull. Mae nifer o resymau dros hyn: 1) Nid yw'r data hyn yn cynnwys gwaharddiadau o unedau cyfeirio disgyblion, 2) Nid yw'r data'n cynnwys data o ysgolion a gaeodd cyn CYBLD y mis Ionawr wedyn, a 3) Wrth ymchwilio i'r gwahaniaethau rhwng y ddwy set o ddata, canfuwyd bod y data a gasglwyd o CYBLD yn cynnwys rhai gwaharddiadau na chawsant eu cynnwys yn yr hen ddata, a bod yr hen ddata'n cynnwys rhai gwaharddiadau na chawsant eu casglu trwy CYBLD. Felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu data yn y datganiad ystadegol newydd hwn a'r hen adroddiad o'r enw 'Gwaharddiadau o Ysgolion yng Nghymru'. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwahaniaeth rhwng y niferoedd a chyfraddau gwaharddiadau gan ddefnyddio'r hen ddull a'r dull newydd ar gyfer 2013/14 a 2013/14 pan gasglwyd y data gan ddefnyddio'r ddau ddull.

## Gwahaniaethau yn y cyfraddau o waharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir yn 2013/14

| | Cyfanswm y disgyblion | | | Cyfradd gwaharddiadau (a) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hen ddull | Dull newydd | Gwahaniaeth | Hen ddull | Dull newydd | Gwahaniaeth |
| **Gogledd Cymru** | 101,179 | 101,222 | +43 | **0.12** | 0.12 | - |
| Ynys Môn | 9,576 | 9,588 | +12 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Gwynedd | 17,034 | 17,034 | 0 | * | * | * |
| Conwy | 15,919 | 15,950 | +31 | * | * | * |
| Sir Ddinbych | 15,680 | 15,680 | 0 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Sir y Fflint | 23,673 | 23,673 | 0 | * | * | * |
| Wrecsam | 19,297 | 19,297 | 0 | * | * | * |
| **De-orllewin a Chanolbarth Cymru** | 129,214 | 129,294 | +80 | **0.14** | 0.14 | - |
| Powys | 18,636 | 18,647 | +11 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Ceredigion | 9,581 | 9,624 | +43 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Sir Penfro | 18,208 | 18,208 | 0 | * | * | * |
| Sir Gâr | 26,895 | 26,921 | +26 | * | * | * |
| Abertawe | 35,311 | 35,311 | 0 | 0.17 | 0.17 | 0.00 |
| Castell-nedd Port Talbot | 20,583 | 20,583 | 0 | 0.53 | 0.53 | 0.00 |
| **Canol De Cymru** | 143,329 | 143,884 | +555 | **0.22** | 0.22 | - |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 22,634 | 22,634 | 0 | 0.40 | 0.40 | 0.00 |
| Bro Morgannwg | 21,639 | 21,639 | 0 | * | * | * |
| Rhondda Cynon Taf | 38,648 | 38,924 | +276 | 0.41 | 0.41 | - |
| Merthyr Tudful | 8,582 | 8,757 | +175 | * | * | * |
| Caerdydd | 51,826 | 51,930 | +104 | 0.10 | 0.10 | - |
| **De-ddwyrain Cymru** | 89,201 | 89,328 | +127 | **0.31** | 0.31 | - |
| Caerffili | 28,710 | 28,710 | 0 | 0.42 | 0.42 | 0.00 |
| Blaenau Gwent | 9,506 | 9,559 | +53 | * | * | * |
| Torfaen | 15,108 | 15,182 | +74 | * | * | * |
| Sir Fynwy | 11,544 | 11,544 | 0 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Casnewydd | 24,333 | 24,333 | 0 | 0.41 | 0.41 | 0.00 |
| **Cymru** | 462,923 | 463,728 | +805 | **0.19** | 0.19 | - |

(a) Cyfradd am bob 1,000 o ddisgyblion. Disgyblion amser llawn a rhan amser o bob oed.
"-" yn golygu fod y data dim yn 0, ond yn ddigon fach i gael ei dalgrynnu i 0 pan yn cyhoeddi i 2 bwynt degol.
"*" yn golygu fod y data yn datguddiol.

## Gwahaniaethau yn y cyfraddau o waharddiadau penodol o 5 diwrnod neu lai yn ysgolion a gynhelir yn 2013/14

| | Cyfanswm y disgyblion | | | Cyfradd gwaharddiadau (a) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hen ddull | Dull newydd | Gwahaniaeth | Hen ddull | Dull newydd | Gwahaniaeth |
| **Gogledd Cymru** | 101,179 | 101,222 | +43 | 21.8 | 21.8 | -0.01 |
| Ynys Môn | 9,576 | 9,588 | +12 | 9.1 | 9.1 | -0.01 |
| Gwynedd | 17,034 | 17,034 | 0 | 6.5 | 6.5 | 0.00 |
| Conwy | 15,919 | 15,950 | +31 | 9.4 | 9.4 | -0.02 |
| Sir Ddinbych | 15,680 | 15,680 | 0 | 35.9 | 35.9 | 0.00 |
| Sir y Fflint | 23,673 | 23,673 | 0 | 29.7 | 29.7 | 0.00 |
| Wrecsam | 19,297 | 19,297 | 0 | 30.7 | 30.7 | 0.00 |
| **De-orllewin a Chanolbarth Cymru** | 129,214 | 129,294 | +80 | 22.2 | 22.2 | -0.01 |
| Powys | 18,636 | 18,647 | +11 | 16.0 | 16.0 | -0.01 |
| Ceredigion | 9,581 | 9,624 | +43 | 6.4 | 6.3 | -0.03 |
| Sir Penfro | 18,208 | 18,208 | 0 | 34.1 | 34.1 | 0.00 |
| Sir Gâr | 26,895 | 26,921 | +26 | 17.0 | 16.9 | -0.02 |
| Abertawe | 35,311 | 35,311 | 0 | 21.8 | 21.8 | 0.00 |
| Castell-nedd Port Talbot | 20,583 | 20,583 | 0 | 32.1 | 32.1 | 0.00 |
| **Canol De Cymru** | 143,329 | 143,884 | +555 | 29.7 | 29.6 | -0.11 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 22,634 | 22,634 | 0 | 18.8 | 18.8 | 0.00 |
| Bro Morgannwg | 21,639 | 21,639 | 0 | 26.4 | 26.4 | 0.00 |
| Rhondda Cynon Taf | 38,648 | 38,924 | +276 | 33.8 | 33.6 | -0.24 |
| Merthyr Tudful | 8,582 | 8,757 | +175 | 20.7 | 20.3 | -0.41 |
| Caerdydd | 51,826 | 51,930 | +104 | 34.3 | 34.2 | -0.07 |
| **De-ddwyrain Cymru** | 89,201 | 89,328 | +127 | 34.1 | 34.1 | -0.05 |
| Caerffili | 28,710 | 28,710 | 0 | 21.5 | 21.5 | 0.00 |
| Blaenau Gwent | 9,506 | 9,559 | +53 | 43.3 | 43.1 | -0.24 |
| Torfaen | 15,108 | 15,182 | +74 | 30.1 | 30.0 | -0.15 |
| Sir Fynwy | 11,544 | 11,544 | 0 | 29.5 | 29.5 | 0.00 |
| Casnewydd | 24,333 | 24,333 | 0 | 50.0 | 50.0 | 0.00 |
| **Cymru** | 462,923 | 463,728 | +805 | 26.7 | 26.7 | -0.05 |

(a) Cyfradd am bob 1,000 o ddisgyblion. Disgyblion amser llawn a rhan amser o bob oed.

**Gwahaniaethau yn y cyfraddau o waharddiadau penodol o fwy na 5 diwrnod yn ysgolion a gynhelir yn 2013/14**

| | Cyfanswm y disgyblion | | | Cyfradd gwaharddiadau (a) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hen ddull | Dull newydd | Gwahaniaeth | Hen ddull | Dull newydd | Gwahaniaeth |
| **Gogledd Cymru** | 101,179 | 101,222 | +43 | 1.4 | 1.4 | - |
| Ynys Môn | 9,576 | 9,588 | +12 | * | * | * |
| Gwynedd | 17,034 | 17,034 | 0 | * | * | * |
| Conwy | 15,919 | 15,950 | +31 | 1.1 | 1.1 | - |
| Sir Ddinbych | 15,680 | 15,680 | 0 | 1.1 | 1.1 | 0.00 |
| Sir y Fflint | 23,673 | 23,673 | 0 | 1.8 | 1.8 | 0.00 |
| Wrecsam | 19,297 | 19,297 | 0 | 2.6 | 2.6 | 0.00 |
| **De-orllewin a Chanolbarth Cymru** | 129,214 | 129,294 | +80 | 1.3 | 1.3 | - |
| Powys | 18,636 | 18,647 | +11 | 1.7 | 1.7 | - |
| Ceredigion | 9,581 | 9,624 | +43 | 0.0 | 0.0 | 0.00 |
| Sir Penfro | 18,208 | 18,208 | 0 | 1.1 | 1.1 | 0.00 |
| Sir Gâr | 26,895 | 26,921 | +26 | 0.4 | 0.4 | - |
| Abertawe | 35,311 | 35,311 | 0 | 1.6 | 1.6 | 0.00 |
| Castell-nedd Port Talbot | 20,583 | 20,583 | 0 | 2.4 | 2.4 | 0.00 |
| **Canol De Cymru** | 143,329 | 143,884 | +555 | 1.7 | 1.7 | -0.01 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 22,634 | 22,634 | 0 | 1.4 | 1.4 | 0.00 |
| Bro Morgannwg | 21,639 | 21,639 | 0 | 2.9 | 2.9 | 0.00 |
| Rhondda Cynon Taf | 38,648 | 38,924 | +276 | 2.2 | 2.2 | -0.02 |
| Merthyr Tudful | 8,582 | 8,757 | +175 | 1.0 | 1.0 | -0.02 |
| Caerdydd | 51,826 | 51,930 | +104 | 1.1 | 1.1 | - |
| **De-ddwyrain Cymru** | 89,201 | 89,328 | +127 | 2.0 | 2.0 | - |
| Caerffili | 28,710 | 28,710 | 0 | 1.9 | 1.9 | 0.00 |
| Blaenau Gwent | 9,506 | 9,559 | +53 | 4.1 | 4.1 | -0.02 |
| Torfaen | 15,108 | 15,182 | +74 | * | * | * |
| Sir Fynwy | 11,544 | 11,544 | 0 | * | * | * |
| Casnewydd | 24,333 | 24,333 | 0 | 3.0 | 3.0 | 0.00 |
| **Cymru** | 462,923 | 463,728 | +805 | 1.6 | 1.6 | - |

(a) Cyfradd am bob 1,000 o ddisgyblion. Disgyblion amser llawn a rhan amser o bob oed.
"-" yn golygu fod y data dim yn 0, ond yn ddigon fach i gael ei dalgrynnu i 0 pan yn cyhoeddi i 2 bwynt degol.
"*" yn golygu fod y data yn datguddiol.

Oherwydd yr effaith mae gweithredu gwahanol arferion rheoli ymddygiad ac ymyriadau o ran gwaharddiadau, megis symudiadau wedi'u rheoli, yn ei chael ar nifer y gwaharddiadau, dylid dehongli cymariaethau dros amser a rhwng awdurdodau lleol yn ofalus.

Mae data gwaharddiadau ar gyfer Cymru wedi'u seilio ar nifer y gwaharddiadau yn ystod y flwyddyn academaidd, ond mae Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi nifer y disgyblion a waharddwyd, felly nid oes modd cymharu'r ddwy set o ddata'n uniongyrchol. Mae gwybodaeth am nifer y disgyblion a waharddwyd yng Nghymru ar gael o wneud cais.

## Diffiniadau

### Cwmpas

Mae'r wybodaeth am waharddiadau yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn ymdrin â nifer y gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol ymysg disgyblion o bob oed o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion a gynhelir yn ystod y flwyddyn academaidd gyfan. Dim ond gwaharddiadau parhaol a gadarnheir gan Bwyllgor Disgyblaeth Disgyblion y Corff Llywodraethu sy'n cael eu cynnwys yn y data gan y cânt eu casglu ar ôl i ganlyniad pob apêl annibynnol gael ei derfynoli. Mae data ar nifer y gwaharddiadau sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl apêl annibynnol hefyd ar gael o wneud cais.

Caiff y data eu casglu o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir yn CYBLD mis Ionawr ar ôl y flwyddyn academaidd y digwyddodd y gwaharddiadau ynddi. Er enghraifft, casglwyd y gwaharddiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15 yn CYBLD Ionawr 2016. Os bydd dwy ysgol yn uno cyn CYBLD mis Ionawr nesaf, caiff data gwaharddiadau'r ysgolion eu cyflwyno gan yr ysgol newydd. Os bydd ysgol yn cau cyn CYBLD mis Ionawr nesaf, ni ddarperir y data gwaharddiadau o'r ysgol honno.

Mae'r niferoedd disgyblion a ddefnyddir i gyfrifo cyfraddau gwaharddiadau yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn cynnwys yr holl ddisgyblion amser llawn a rhan amser mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir. Dim ond disgyblion o ysgolion oedd yn dal i fod ar agor i ddarparu data gwaharddiadau yn CYBLD y mis Ionawr nesaf y maent yn eu cynnwys. Os mai ysgol oedd newydd uno a ddarparodd y data gwaharddiadau, bydd yr holl ysgolion a unodd i ffurfio'r ysgol honno hefyd wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau.

Mae'r data'n ymdrin â nifer y gwaharddiadau, nid nifer y disgyblion a waharddwyd. Er enghraifft, byddai disgybl a waharddwyd dwywaith yn ystod blwyddyn academaidd yn ymddangos dwywaith ar gyfer y flwyddyn honno.

### Mathau o waharddiadau a diffiniadau eraill

Mae **gwaharddiad parhaol** yn cyfeirio at ddisgybl sy'n cael ei wahardd ac mae ei enw'n cael ei ddileu o gofrestr yr ysgol. Byddai disgybl o'r fath wedyn yn cael ei addysgu mewn ysgol arall neu drwy ddarpariaeth o ryw fath arall.

Mae **gwaharddiad cyfnod penodol** yn cyfeirio at ddisgybl sy'n cael ei wahardd o ysgol ond sy'n aros ar gofrestr yr ysgol honno oherwydd y disgwylir iddo ddychwelyd ar ôl i gyfnod y gwaharddiad ddod i ben.

Mae **symudiad wedi'i reoli** yn drefniant lle mae rhieni disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn cytuno ag ysgolion ac awdurdodau lleol ei bod er budd pennaf eu plentyn gael ei dynnu o gofrestr yr ysgol bresennol a'i symud i sefydliad addysgol arall. Nid oes data ar gyfer symudiadau wedi'u rheoli ar gael ar hyn o bryd.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn

brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen hon ar gael yn:
http://gov.wales/statistics-and-research/permanent-fixed-term-exclusions-from-schools/?lang=cy.

Mae Lloegr yn cyhoeddi data gwaharddiadau ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a ariennir gan y wladwriaeth yn y datganiad ystadegol o'r enw 'Permanent and fixed-period exclusions in England: 2013 to 2014'.

Mae'r Alban yn cyhoeddi data gwaharddiadau ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir yn y bwletin ystadegol 'Summary statistics for schools in Scotland - No. 6: 2015 Edition'.

Mae Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi nifer y disgyblion sy'n cael eu diarddel neu eu diarddel dros dro o ysgolion cynradd, ôl-gynradd ac arbennig.

## Diweddariad nesaf

Medi 2017 (dros dro)

Fe fydd y diweddariad nesaf yn cynnwys adroddiad ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk

## Drwydded Llywodraeth Agored

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.